PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 5

# *Carfanau Pwyso 1: Nodweddion a Mathau*

## Canllaw i Athrawon

International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar nodweddion a mathau carfanau pwyso yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 5:<br>Carfanau pwyso 1:<br>Nodweddion a mathau** | **2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth<br>– Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pleidiau a charfanau pwyso<br>– Mathau gwahanol o garfanau pwyso gydag enghreifftiau** |

Mae cyswllt cryf rhwng Adnodd 5 a 6 gyda'r adnodd hwn yn darparu'r sail o ran diffinio carfanau pwyso a'r prif ddulliau o gategoreiddio mathau gwahanol o garfanau. Edrychir ymhellach ar nodweddion fel dulliau dylanwadu, beth sy'n effeithio ar eu llwyddiant a'u cyfraniad i ddemocratiaeth yn Adnodd 6.

Bwriad y canllaw i athrawon yw tynnu sylw at rai materion allweddol yn ymwneud â'r pwnc.

## Diffinio carfanau pwyso

Mae'r Wybodaeth Graidd yn cynnig diffiniad allweddol o garfanau pwyso gan Wyn Grant. Eir ati i ddadansoddi'r diffiniad hwn yn fanwl yn ôl y nodweddion pwysig sy'n cael eu cynnwys yn y diffiniad. Pwrpas hyn yw egluro'r prif nodweddion sy'n cael eu cynnwys yn y dyfyniad a dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion. Drwy wneud hynny, tynnir sylw at rai o'r gwahaniaethau o ran ffyrdd o ddiffinio carfanau pwyso, sydd yn ei dro'n adlewyrchu'r amrywiaeth a'r ystod sy'n bodoli ymysg carfanau pwyso.

## Mathau gwahanol o garfanau pwyso gydag enghreifftiau

Mae'r deunydd hwn yn trafod y ddwy brif ffordd o wahaniaethu rhwng carfanau pwyso ac mae'n amlinellu rhai o'r prif feirniadaethau o'r ddau ddull. Gellid fod wedi cynnwys dulliau eraill o wahaniaethu. Y dulliau o gategoreiddio a drafodir yw:

Carfanau adrannol neu garfanau achos, a hefyd egluro natur carfanau brig;

a

Charfanau mewnol a charfanau allanol.

Wrth drafod carfanau mewnol a charfanau allanol, tynnir sylw at y modd mae Wyn Grant wedi gwahaniaethu ymysg carfanau mewnol rhwng: carfanau mewnol craidd, carfanau mewnol arbenigol, a charfanau mewnol ymylol, ac ymysg carfanau allanol rhwng: carfanau mewnol posib, carfanau allanol o reidrwydd, carfanau allanol ideolegol. Wrth drafod y nodweddion hyn, mae'n anochel bod sylw yn dechrau cael ei roi i'r mathau o bwyntiau mynediad a dulliau dylanwadu a ddefnyddir gan garfanau.

Yn achos y ddau fath o gategoreiddio, cynigir asesiad o gryfderau a gwendidau'r ffyrdd hyn o wahaniaethu rhwng carfanau. Darperir sail felly nid yn unig er mwyn deall y gwahanol fathau o garfanau pwyso ond hefyd i ymwneud yn feirniadol â'r categoreiddio hwn mewn unrhyw asesu.

## Beth sy’n debyg ac yn wahanol rhwng carfanau pwyso a phleidiau gwleidyddol?

Mae’r drafodaeth o ran nodweddion cyffredin a’r cymariaethau rhwng carfanau pwyso a phleidiau gwleidyddol yn elfen amlwg mewn llawer o’r llenyddiaeth gwricwlaidd ar y pwnc. Canolbwyntir ar amlinellu rhai o’r prif elfennau ar sail tabl sy’n tynnu sylw at y tebygrwydd a’r gwahaniaethau o ran nodweddion penodol pleidiau gwleidyddol a charfanau pwyso. Gellid trafod nifer o’r nodweddion hyn a nodweddion eraill mewn manylder ond mae ymgais yma i ddefnyddio pynciau penodol er mwyn amlygu’r tebygrwydd a’r gwahaniaethau.

Nid oes ymgais yma i drafod yn fanwl y manylion o ran gwahaniaethau rhwng lefelau aelodaeth carfanau a phleidiau gwleidyddol, yn arbennig gan nad oedd gwybodaeth ddiweddar ar gael yn rhwydd o ran aelodaeth carfanau pwyso. Dylid nodi hefyd fod tueddiadau fel dirywiad yn aelodaeth pleidiau gwleidyddol wedi newid gryn dipyn dros amser, e.e. cynnydd yn aelodaeth pleidiau gwleidyddol yn y DU o 2013 ymlaen.[1]

Eto, mae cwestiwn 6 yn y llawlyfr gwaith yn datblygu hyn drwy annog ystyried nodweddion gwahanol ac i ba raddau maen nhw’n cael eu cysylltu â charfanau pwyso neu bleidiau gwleidyddol.

## Ymarferion yn y llawlyfr gwaith

Mae’r ymarferion yn ceisio cynnig ffyrdd i’r disgyblion ddatblygu dealltwriaeth bellach o’r ffyrdd o ddeall a chategoreiddio carfanau pwyso a drafodir yn yr Adnodd. Yn benodol, nod yr ymarferion cyntaf yn y llawlyfr gwaith yw annog disgyblion i weithio ar eu gallu i gynnig diffiniadau. Bwriad cwestiwn 4 yw darparu cyfle i’r disgyblion ddatblygu yn bellach eu dealltwriaeth o’r gwahaniaethu rhwng carfanau adrannol ac achos drwy edrych ar esiamplau o garfanau o ran eu swyddogaeth a phwy maent yn ei gynrychioli. Yng nghwestiwn 5, y ffocws yw ystyried gwahanol gyrff ac asesu beth yw eu statws a’r dulliau o gael dylanwad a gysylltir â nhw (a drafodir yn bellach yn Adnodd 6) er mwyn gweithio ar ddefnyddio’r gwahaniaethu rhwng carfanau mewnol ac allanol. Cwestiynau eraill cysylltiedig â hyn yw:

: Beth yw’r mannau mynediad sydd ar gael i garfanau mewnol?

: Beth yw’r dulliau o ddylanwadu sydd ar gael i garfanau allanol?

Cyniga cwestiwn 6 gyfle i bwyso a mesur nodweddion carfanau pwyso a phleidiau gwleidyddol. Gellid trafod hyn ar lafar ymhellach trwy ofyn –

: Ym mha ffordd mae nod y carfanau pwyso a phleidiau gwleidyddol yn wahanol?

: Ym mha ffordd mae eu trefniadaeth yn wahanol o ran materion penodol fel aelodaeth, arweinyddiaeth ayyb?

: Pam mae mwy a mwy o bobl wedi ymuno â charfanau pwyso yn y blynyddoedd diwethaf hyn?

Y nod yma yw crynhoi’r drafodaeth fydd wedi deillio o edrych ar Adnodd 5 trwy holi a yw’r dysgwyr wedi deall hanfod a lle carfanau pwyso o fewn y cyd-destun gwleidyddiaeth gyfoes. I’w procio yn eu hymateb gellid gofyn –

: A yw gwleidyddiaeth gonfensiynol, y pleidiau a’r systemau traddodiadol, yn ateb gofynion politicaidd y dydd?

: Os nad ydynt, pam a sut?

: Pa ‘wleidyddiaeth’ sydd yn apelio fwyaf atoch chi, a pham?

1 Gweler Papur Briffio Llyfrgell Tŷ’r Cyffredin (2018) *Membership of UK Political Parties*: http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN05125/SN05125.pdf

## ARGYMHELLION DARLLEN PELLACH

### Adnoddau yn Gymraeg

Lydia Jones & Gwilym Evans (2013) Llyfr UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (Aberystwyth: @ebol) Pennod 7: Byd y carfanau pwyso; Pennod 8: Ymddygiad carfanau pwyso.

Wyn Grant (2001) 'Carfanau Pwyso yn y Deyrnas Gyfunol: Da neu Ddrwg i Ddemocratiaeth': http://www.politicscymru.com/cy/cat1/article19/ Cyfieithiad o erthygl gan Wyn Grant fel rhan o adnoddau Llywodraeth a Gwleidyddiaeth Arlein.

### Adnoddau yn Saesneg

Erthygl fer Wyn Grant yn Political Insight ar Garfanau Pwyso 2014: http://journals.sagepub.com/doi/10.1111/2041-9066.12055